
## Siart 2: Amcangyfrif o ganran y boblogaeth yng Nghymru a gofnodwyd eu bod wedi derbyn brechiad ac yn profi'n bositif am wrthgyrff coronafeirws (COVID-19) rhwng 7 Rhagfyr 2020 a 20 Mehefin 2021




Ffynhonnell: Arolwg Heintiadau Coronafeirws (COVID-19), ONS
Mae'r llinell las a'r cysgodi yn cynrychioli'r duedd sydd wedi'i modelu a’r cyfyngiadau credadwy o 95% i bobl sy'n profi'n bositif am wrthgyrff (glas tywyll) ac adroddwyd pobl eu bod wedi cael o leiaf un dos o frechlyn COVID (glas) neu eu bod wedi cael eu brechu'n llawn (glas golau).

Mae positifedd gwrthgyrff yn parhau’n uwch ymhlith y grwpiau oedran hŷn na’r grwpiau oedran iau. Mae hyn yn adlewyrchu’r modd y mae’r rhaglenni brechu sydd ar waith yn blaenoriaethu yn ôl oedran.

Rhwng 14 a 20 Mehefin, profodd mwy na 95% o bobl 35 oed neu’n hŷn yn bositif am wrthgyrff, gan amrywio o 95.4% i 98.2%. Mewn cymhariaeth, ymhlith y rheini sy’n 16 i 34 oed, roedd y rhai a brofodd yn bositif am wrthgyrff yn amrywio o 66.4% i 88.9%.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://llyw.cymru/arolwg-heintiadau-coronafeirws-covid-19-data-gwrthgyrff-14-i-20-mehefin-2021-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

